PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

ARHOLIADAU SEMESTER DAU, 2025/26

ADRAN Y GYFRAITH A THROSEDDEG

CT11120 CAMWEDD

Amser: **UN AWR A HANNER**

Atebwch UN cwestiwn yn unig

Arholiad 'Llyfr Agored' yw hwn. Mae ymgeiswyr yn cael dod ag unrhyw ddeunyddiau (nodiadau a llyfrau) i mewn i'r arholiad, ac eithrio llyfrau llyfrgell ac unrhyw ddyfais electronig.
PEIDIWCH â rhoi unrhyw ddeunyddiau ar y llawr.

Cofiwch y bydd yr arholwyr yn rhoi pwysigrwydd neilltuol ar ba mor berthnasol yw'ch ateb i'r cwestiwn PENODOL a ofynnwyd. Ni roddir marciau am ddeunydd amherthnasol.

Pa bynnag gwestiwn y dewiswch ei ateb, *rhaid* i chi gyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol a/neu gyfraith achosion, fel y bo'n briodol, i gefnogi'ch atebion.

Nodwch yn glir pa gwestiynau rydych yn eu hateb.

MAE MYFYRWYR YN CAEL CYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN YN GYMRAEG NEU YN SAESNEG

Ar ôl eistedd, DIM OND tudalen flaen y llyfr/llyfrau atebion a'r papur presenoldeb y mae myfyrwyr yn cael eu llenwi.

PEIDIWCH Â THROI'R PAPUR ARHOLIAD DROSODD TAN Y DYWEDIR WRTHYCH AM WNEUD HYNNY.

1. **A yw'r ffordd bresennol y mae'r gyfraith yn trin achubwyr sy'n dioddef niwed seiciatrig yn deg yn ei hanfod, neu a yw'n cyfyngu ar yr iawndal i'r unigolion sy'n eu rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd peryglus i helpu eraill, a hynny heb gyfiawnhad?**

   Trafodwch sefyllfa achubwyr mewn hawliadau am anafiadau seiciatrig, gan gyfeirio at awdurdod cyfreithiol perthnasol. Yn eich ateb dylech:

   - esbonio sut mae'r gyfraith yn gwahaniaethu rhwng dioddefwyr cynradd ac eilaidd,
   - esbonio sut mae achubwyr wedi cael eu trin mewn cyfraith achosion,
   - gloriannu a yw'r ymdriniaeth bresennol yn taro cydbwysedd priodol rhwng ystyriaethau polisi a thegwch; a
   - darparu casgliad rhesymedig ynghylch a yw'r ffordd bresennol y mae'r gyfraith yn trin achubwyr yn foddhaol.

2. **Gan gyfeirio at y gyfraith achosion berthnasol, trafodwch i ba raddau y mae cyfraith niwsans preifat yn galluogi llysoedd i gydbwyso buddiannau cystadleuol tirfeddianwyr cydffiniol yn briodol, pan fo defnydd un parti o'u tir yn ymyrryd â gallu'r llall i fwynhau eu tir hwythau.**

   Yn eich ateb, dylech:

   - nodi elfennau allweddol niwsans preifat,
   - esbonio'r prif ffactorau y mae llysoedd yn eu hystyried wrth benderfynu ynghylch rhesymolrwydd,
   - ddefnyddio cyfraith achosion i ddangos sut mae'r llysoedd yn cydbwyso buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd,
   - drafod ymgais y llys i daro cydbwysedd teg rhwng y buddiannau hyn sy'n cystadlu â'i gilydd; a
   - dod i gasgliad rhesymedig ynghylch a yw'r dull presennol yn llwyddo i daro cydbwysedd priodol ai peidio.

3. Mae Jacob, gŵr gweddw, wedi dioddef cyflwr cefn poenus a gwanychol byth ers i Liam, myfyriwr prifysgol lleol, daro i mewn iddo ar y palmant chwe mis yn ôl. Roedd Liam yn

plethu ei ffordd rhwng cerddwyr wrth edrych ar ei ffôn pan darodd yn erbyn Jacob, gan ei fwrw i'r llawr.

Oherwydd ei broblemau symudedd, mae Jacob yn dibynnu'n helaeth ar ei gymdogion, Callum ac Ania, o ran coginio, glanhau, a chymorth yn y cartref. Mae Jacob wedi rhoi allwedd i'w gartref un i bob un o'r ddau.

Wrth i Jacob dreulio amser yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth ar gyfer yr anaf i'w gefn, mae Ania yn mynd i mewn i dŷ Jacob i ffonio ei Mam gan nad oes ganddi signal ffon symudol gartref. Ar ei ffordd allan, mae hi'n llithro ar y gris concrit bregus wrth y drws cefn, ac yn torri ei choes.

Ar achlysur diweddarach, wrth i Callum baratoi cinio yng nghegin Jacob, ffrwydrodd bwyler y gwres canolog yn sydyn, gan ei anafu. Roedd y bwyler wedi cael gwasanaeth yn ddiweddar gan Jenny, peiriannydd nwy hunangyflogedig. Roedd Jacob wedi dod o hyd i Jenny ar wefan Gas Safe Register ond ni ofynnodd iddi ddangos ei cherdyn adnabod Gas Safe pan gyrhaeddodd i wneud y gwaith.

Rhowch gyngor i Jacob, Ania a Callum o ran eu hawliadau posibl am esgeuluster, ac yn erbyn pwy. Ystyriwch a fyddai'n bosib cymhwyso esgeuluster y gyfraith gyffredin ac atebolrwydd y meddiannydd (gan gynnwys contractwyr annibynnol) fel y bo'n briodol.

Yn eich ateb, dylech:

- Nodi'r dyletswyddau a allai fod yn ddyledus i bob parti a'r sail gyfreithiol ar eu cyfer.
- Gymhwyso'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol i'r ffeithiau, gan gyfeirio at y gyfraith achosion briodol.
- Ystyried achosiaeth a phellenigrwydd y difrod.
- Ddarparu casgliadau rhesymedig ynglŷn â hawliadau pob parti.

DIWEDD Y PAPUR